Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

4 Arfer Da wrth... wella ymddygiad yn yr ysgol

Cyflwyniad

Mae ymddygiad cadarnhaol a chymryd rhan yn yr ysgol yn hollbwysig i gyrhaeddiad addysgol da. Mae gwella ymddygiad pobl ifanc yn yr ysgol a chynyddu cymryd rhan mewn addysg bellach yn nodwedd polisïau addysg ar draws y DU.

Yn ddiweddar mae polisïau hefyd wedi anelu at fynd i'r afael â thriwantiaeth a gwaharddiad o ysgolion, ac mae'n pennu targedau i fonitro cynnydd. Mae gwella ymddygiad a chyfranogiad disgyblion mewn ysgolion yn rhan annatod o gyflawni hyn.

Mae ymchwil wedi dangos buddion sylweddol ar gyfer pobl ifanc, prosiectau a chymunedau o ganlyniad i well ymddygiad yn yr ysgol.

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r ymagweddau at wella ymddygiad yn yr ysgol a weithiodd yn dda ar gyfer prosiectau a ariennir drwy Gronfa Pobl Ifanc (CPI) y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r canllaw hwn yn darparu cyngor defnyddiol ac enghreifftiau ymarferol ar gyfer prosiectau presennol a rhai yn y dyfodol, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad pum mlynedd ar draws y DU o'r Gronfa Pobl Ifanc. Cyflawnwyd y gwerthusiad gan GEN Consulting a Wavehill Consulting.

Pam y dylem fynd i'r afael ag ymddygiad gwael?

Mae ymddygiad aflonyddgar yn y dosbarth yn erydu gallu plant i ganolbwyntio a chymathu gwybodaeth, ac mae'n achosi cryn dipyn o straen i athrawon. Mae ymddygiad sy'n gyson wael ac yn aflonyddgar yn cyfyngu ar allu plant a phobl ifanc i wireddu eu potensial yn y dosbarth[1].

Gall ymddygiad gwael arwain at waharddiadau neu waharddiadau parhaol o'r ysgol. Yn 2008/09 roedd 6,900 o waharddiadau parhaol o ysgolion[2] y DU. Arweiniodd ymddygiad aflonyddgar at 30 y cant o'r holl waharddiadau parhaol a 23 y cant o'r holl waharddiadau cyfnod penodol[3].

Mae ymyrraeth effeithiol ar gam cynnar yn rhan hanfodol o sicrhau nad yw'r ymddygiad hwn yn mynd yn barhaus ac yn arwain at waharddiadau.

Gwelodd y gwerthusiad o'r CPI fod gan brosiectau'r sector ieuenctid y potensial i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad pobl ifanc sydd mewn perygl o ddadrithio neu waharddiad. Adlewyrchir hyn mewn ymchwil a pholisïau sy'n dangos pa mor bwysig y mae i sefydlu darpariaeth atyniadol ar gyfer disgyblion aflonyddgar fel rhan o strategaethau i wella ymddygiad.

Beth yw'r buddion a ddaw o wella ymddygiad mewn ysgolion?

Mae plant sy'n cael eu heithrio o'r ysgol oherwydd ymddygiad gwael yn fwy tebygol o dangyflawni'n academaidd. Maen nhw mewn perygl o ddatgysylltu rhag addysg ac felly, rhag gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas[5].

Mae adnabod a mynd i'r afael ag achosion ymddygiad aflonyddgar yn gynnar yn hwyluso'r profiad o ddysgu bob dydd yn y dosbarth, ac yn dileu rhwystrau i ganolbwyntio a gwneud cynnydd sy'n cael eu creu gan amgylchedd dysgu yr amherir arno.

Yn ogystal â'r rhai yr amherir ar eu dysgu gan ymddygiad gwael disgyblion eraill, mae'r disgyblion aflonyddgar eu hunain yn gweld buddion ymddwyn yn well. Felly y mae gydag athrawon, rhieni a'r gymuned ehangach. Mae'r buddion yn cynnwys:

Buddion ar gyfer pobl ifanc...

- Amgylchedd dysgu gwell.
- Cymryd rhan yn well yn yr ysgol gan arwain at gyrhaeddiad addysgol uwch.
- Cysylltiadau mwy cadarnhaol gydag athrawon, gan wneud yr ysgol yn amgylchedd mwy dymunol.

[1]Behaviour and Discipline in Schools' House of Commons Education Committee first report of session 2010-11. www.publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmselect/cmeduc/516/516i.pdf

[2]www.poverty.org.uk/27/index.shtml

[3]'Not present and not correct; understanding and preventing school exclusions' – Jane Evans, Barnardo's.

[4]OFSTED: Improving Behaviour in Secondary Schools

[5]'Behaviour and Discipline in Schools' www.publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmselect/cmeduc/516/516i.pdf

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Buddion ar gyfer rhieni...

- Mae plant yn llai tebygol o gael eu gwahardd, gan leihau straen a phryder i rieni a chan hyrwyddo perthnasoedd teuluol mwy cadarnhaol.
- Gall rhieni deimlo'n hyderus bod eu plant yn ymwneud ag addysg heb fod eu haddysg yn cael ei haflonyddu.

Buddion ar gyfer athrawon...

- Amgylchedd gwaith llai straenus.
- Mwy o amser i ddysgu gan fod llai o amser yn cael ei dreulio ar faterion disgyblaeth.
- Cyfle i greu cysylltiadau cadarnhaol gydag athrawon.

Buddion ar gyfer y gymuned...

- Mae pobl ifanc yn llai tebygol o driwantio a dechrau ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o fedru gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas.

Beth sy'n gweithio?

Ymyrraeth gynnar

Mae'n bwysig adnabod ar gam cynnar y bobl ifanc hynny sy'n:

- ei chael hi'n anodd canolbwyntio ar addysg ac ymwneud â hi; ac sy'n
- dechrau dangos ymddygiad negyddol oherwydd diffyg ffocws.

Mae ymyrraeth gynnar yn darparu cyfle i chi ddenu pobl ifanc yn ôl i addysg cyn i'w hymddygiad fynd yn rhan annatod ohonynt ac yn gymaint o broblem fel y maent yn wynebu gwaharddiad a'r niwed cysylltiedig i'w cyfleoedd hir dymor.

Mae buddion ymyrraeth gynnar i wella ymddygiad wedi'u dangos gan astudiaethau achos 1 a 2.

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 1

Gwlad: Yr Alban
Prosiect: Award Inclusive
Mudiad: Cyfeillion y Wobr Caeredin (FOTA)

Sefydlwyd Cyfeillion y Wobr Caeredin (FOTA) ym 1998. Mae'n cefnogi ac yn mwyafu cyflwyniad lleol Gwobr Dug Caeredin yn Nghaeredin ac ardal Lothian.

Mae'r rhaglen Award Inclusive yn annog ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi'u dadrithio neu swydd mewn perygl o ddadrithio gydag addysg. Rhoddir cyfle i bobl ifanc weithio tuag at Wobr Dug Caeredin fel rhan o'u cwricwlwm. Mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc yn eu pedwaredd flwyddyn yn yr ysgol uwchradd. Mae'r bobl ifanc dan sylw yn cynnwys y rhai sy'n aflonyddgar yn y dosbarth, y rhai y mae eu presenoldeb yn wael, y rhai sydd â hunan-barch isel a'r rhai y mae eu cyflawniad academaidd yn isel. Trwy ymgysylltu'n gynnar â'r bobl ifanc hyn pan fyddant yn dal yn yr ysgol, mae'r rhaglen yn anelu at wella'u hymddygiad a'u cyfranogiad, a dileu'r angen am ymyraethau mwy dwys nes ymlaen.

I fod yn rhan o'r rhaglen mae'n rhaid i'r bobl ifanc wneud ymrwymiad hir dymor at y wobr a chytuno bod eu cyfranogiad parhaus yn ddibynnu ar eu cyfranogiad cynyddol mewn addysg, presenoldeb ac ymddygiad da. I lawer o'r bobl ifanc, y dyfarniad yw'r her bersonol ac academaidd gyntaf y maent wedi ymrwymo iddi.

Mae'r rhaglen wedi llwyddo i annog cyfranogiad mewn addysg a chyflawni cyrchnodau'n llwyddiannus ar ôl yr ysgol. Darparodd staff ysgolion dystiolaeth anecdotaidd i FOTA bod yr amser sy'n cael ei dreulio ar faterion disgyblu gyda phobl ifanc sy'n ymwneud ag Award Inclusive dau draean yn llai ar ôl iddynt ymwneud â'r cynllun.

Am fwy o wybodaeth gweler:
Gwerthusiad o Flwyddyn 5 y CPI
Neu
www.fota.org.uk

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 2

Gwlad: Gogledd Iwerddon
Prosiect: Clybiau ar ôl ysgol ar gyfer Teithwyr ifanc
Mudiad: Armagh Travellers Support Group

Mae'r prosiect yn cefnogi Teithwyr ifanc yn eu hysgolion mewn clybiau ar ôl ysgol. Mae'r prosiect yn gweithio gyda phlant ysgol gynradd i helpu i gynyddu eu cyfranogiad a'u cyrhaeddiad addysgol. Mae hefyd yn cefnogi plant wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd; cyfnod pan fydd risg uchel y bydd Teithwyr ifanc yn dadrithio.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys cymorth un i un gyda gwaith cartref, chwarae rôl er mwyn i blant ymchwilio i'w diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, cynllun llyfrgelloedd lleol, gweithgareddau corfforol a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r prosiect yn cydweithio'n agos ag ysgolion i ddarparu cefnogaeth sydd wedi'i theilwra i anghenion disgyblion unigol.

Amlygodd gweithwyr prosiect hanes bachgen sy'n naw mlwydd oed. Roedd y bachgen yn aflonyddgar yn y dosbarth ac yn ei chael hi'n anodd cwblhau gwaith cartref. Ni allai ei rieni ei helpu oherwydd eu problemau llythrennedd eu hunain.

Rhoddodd y clwb ar ôl ysgol gyfle iddo chwarae gyda'i gymheiriaid, siarad am ei ddiwylliant a gwrando ar eraill yn siarad am eu bywydau. Rhoddwyd cyfle iddo wella ei ddysgu mewn amgylchedd addysgu diogel a chyfforddus.

Oherwydd y gefnogaeth ychwanegol mae'r bachgen wedi profi i fod yn ddawnus yn academaidd. Mae athrawon yn adrodd ei fod yn perfformio'n dda yn yr holl bynciau. Mae ei gymhelliad yn uchel bellach ac mae'n dangos cryn dipyn o frwdfrydedd. Mae hyn yn amlwg yn ei bresenoldeb arbennig, ei ymddygiad cadarnhaol a'i agwedd.

Am fwy o wybodaeth gweler:

Gwerthusiad o Flwyddyn 5 y CPI
Neu
www.armaghtsg.org

Partneriaethau gydag ysgolion

Mae'n bwysig i chi a'ch prosiect ieuenctid sicrhau bod ymyraethau i wella ymddygiad yn yr ysgol yn targedu'r bobl ifanc y mae angen y gefnogaeth arnynt fwyaf ac sy'n debygol o gael y budd mwyaf ohonynt.

Cyflawnir targedu effeithiol orau drwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion.

Mae nifer o fuddion i ymagwedd bartneriaeth. Mae partneriaethau'n golygu:

- **Y gall athrawon ddewis y disgyblion:** Yr athrawon sy'n gyfarwydd â'r bobl ifanc ac yn gweithio gyda nhw bob dydd yw'r rhai sydd yn aml yn y sefyllfa orau i adnabod y rhai a fyddai'n fwyaf addas ar gyfer gweithgareddau prosiect.
- **Ei fod yn haws rheoli deinameg y grŵp:** Wrth gyflwyno gwaith grŵp a gweithgareddau prosiect, y peth gorau yn aml yw gweithio gyda grŵp cymysg. Er enghraifft, os oedd prosiect yn ceisio gweithio gyda grŵp a ffurfiwyd yn gyfan gwbl o'r rhai nad ydynt yn dod i'r ysgol, gall fod yn anodd sicrhau cyfranogiad. Yn yr un modd, mewn grŵp lle mae'r holl bobl ifanc yn dangos ymddygiad heriol iawn, gallai fod yn anodd cynnal disgyblaeth. Mewn grŵp cymysg (lle mae problemau personol ac ymddygiadol yn amrywio), gall pobl ifanc ddysgu o'i gilydd. Pan fydd ymddygiadau cadarnhaol yn cael eu gwobrwyo, bydd eraill yn gweld hyn a gall ymddygiad ddechrau newid.
- **Bod gweithgareddau prosiect yn integredig ac yn gweddu i weithgareddau yn yr ysgol:** Pan fydd partneriaeth gref gyda'r ysgol, mae pobl ifanc yn creu cyswllt rhwng yr ysgol a'r prosiect. Os bydd pobl ifanc yn mwynhau eu gweithgareddau prosiect maent yn aml yn adrodd eu bod yn dechrau mwynhau'r ysgol yn fwy gan eu bod yn ystyried bod y prosiect yn rhan o'r ysgol. Maent hefyd yn dechrau gweld gwerth gweithgareddau'r ysgol a sut mae'n gysylltiedig â phethau eraill. Er enghraifft, pan fydd gweithgareddau prosiect yn cynnwys llythrennedd a rhifedd, mae pobl ifanc yn dysgu gwerth y sgiliau hyn a'r ffyrdd y gellir eu cymhwyso.

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

- **Hwyl strwythuredig:** Pan fydd prosiectau'n cydweithio'n agos â'r ysgol a phan fydd athrawon yn cymryd rhan, mae pobl ifanc yn elwa o ddisgyblaeth a strwythur amgylchedd yr ysgol ac ar yr un pryd yn cael cyfle i ddysgu a datblygu eu sgiliau yn y ffyrdd mwy ymarferol ac anffurfiol y mae gweithgareddau'r prosiect yn eu caniatáu. Mewn sawl achos mae pobl ifanc sy'n dangos ymddygiad heriol yn y dosbarth yn gwneud hynny gan nad yw'r amgylchedd hwnnw'n addas ar gyfer eu dull dysgu nhw.

Mae Award Inclusive (astudiaeth achos enghreifftiol 1) hefyd yn dangos pwysigrwydd partneriaethau prosiect/ysgol effeithiol. Nododd staff y prosiect fod hyn yn un o ffactorau llwyddiant mwyaf arwyddocaol eu prosiect. Teimlwyd bod:

> ...yr ymagwedd bartneriaeth yn sicrhau cynnwys y bobl ifanc fwyaf priodol yn y rhaglen ac yn caniatáu cynllunio effeithiol i integreiddio Gwobr Dug Caeredin yn amserlen yr ysgol yn ogystal ag alinio â chanlyniadau'r Cwricwlwm dros Ragoriaeth (cwricwlwm cenedlaethol).
>
> Siaradodd pobl ifanc sy'n ymwneud ag Award Inclusive yn hyderus am y gweithgareddau y maent wedi cymryd rhan ynddynt. Dywedodd un ferch nad oedd hi'n mwynhau'r ysgol yn flaenorol ond ei bod hi bellach yn gwneud Gwobr Dug Caeredin fel rhan o'i hastudiaethau, rhywbeth y mae hi'n ei mwynhau'n fawr, a bod ei chymhelliad hi'n uwch yn yr ysgol yn gyffredinol.
>
> Am fwy o wybodaeth gweler:
> Gwerthusiad o Flwyddyn 5 (2011)
> Neu
> **www.fota.org.uk**

Proses ffurfiol a dealltwriaeth ar y cyd

Rhan allweddol o wella ymddygiad yn yr ysgol yw amlinellu'n glir yn union pa ymddygiad a ddisgwylir gan bobl ifanc. Gellir gwneud hyn drwy drafodaeth anffurfiol a phennu rheolau craidd neu'n fwy ffurfiol gydag, er enghraifft, contract ymddygiad. Gall hyn helpu pobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol dros eu hymddygiad: Dylai pobl ifanc:

- Eistedd i lawr gyda chi [gweithwyr prosiect], staff yr ysgol (a weithiau eu rhieni) i siarad am sut y disgwylir iddynt ymddwyn.
- Ymrwymo i'r contract ymddygiad.
- Bod yn rhan o benderfynu ar ganlyniadau torri eu hymrwymiad i ymddygiad cadarnhaol a bod yn gwbl ymwybodol o'r canlyniadau hynny. Mae hyn yn rhywbeth iddynt fyfyrio drosto os byddant yn ymddwyn yn wael neu'n derbyn rhybudd am eu hymddygiad.

Dangosir hyn yn astudiaeth achos enghreifftiol.

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 3

Gwlad: Lloegr

Prosiect: Rev 'n' Go

Mudiad: Rev 'n' Go

Mae Rev 'n' Go yn annog ymddygiad da yn yr ysgol a'r tu allan iddi drwy fynd â phobl ifanc ar sesiynau beicio modur oddi ar y ffordd. Mae cyfranogiad pobl ifanc yn dibynnu ar eu hymrwymiad i gontract ymddygiad.

Bwriedir i'r prosiect leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella ymddygiad, llythrennedd a rhifedd a chynyddu cyrhaeddiad addysgol.

Mae pobl ifanc yn llofnodi contract ymddygiad pan fyddant yn ymuno â'r prosiect. Fel grŵp mae pobl ifanc yn penderfynu beth ddylai ddigwydd os torrir telerau'r contract.

Amlygodd y prosiect dystiolaeth ei fod wedi llwyddo i helpu disgyblion a waharddwyd yn flaenorol i ymwneud â'r ysgol a'u helpu i symud ymlaen i gyflawni cyrchnodau cadarnhaol ar ôl yr ysgol.

I gael mwy o wybodaeth ewch i:

www.rev-n-go.org

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Gwrando ar bobl ifanc a'u cynnwys

Mae ymddygiad aflonyddgar a heriol yn aml yn arwydd o rwystredigaeth. Mae prosiectau pobl ifanc mewn sefyllfa dda i roi llais i bobl ifanc ynghyd â'r amser a'r lle y mae eu hangen arnynt i fynegi eu pryderon ac ymdrin â'u rhwystredigaeth.

Pan fydd pobl ifanc yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a'u bod yn cael eu cefnogi ac yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gall hyn fod yn help mawr o ran annog newid i ymddygiad cadarnhaol.

Mae gwybodaeth a chyngor pellach ar gynnwys plant a phobl ifanc mewn ffordd weithredol ac ystyrlon wedi'u cynnwys yn y canllaw 'Arfer Da wrth Gynnwys Pobl Ifanc yn Weithredol' sy'n rhan o'r gyfres hon.

Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ymchwil, polisïau ac arfer yn y DU mewn perthynas â gwella ymddygiad, presenoldeb a chyfranogiad, gweler:

HMIE: Gwybodaeth am rôl yr arolygydd, a llyfrgell o adroddiadau ar ysgolion, colegau, awdurdodau addysg a darpariaeth addysg gymunedol.

Ewch i: www.hmie.gov.uk

Gweler hefyd:

- The Climate for Learning: **www.hmie.gov.uk/documents/publication/rbblr.html**
- Case Studies of Good Practice in improving the Climate for Learning: **www.hmie.gov.uk/documents/publication/hmie_csgp.html**

OFSTED: Yr asiantaeth sy'n arolygu ac yn rheoleiddio i helpu cyflawni rhagoriaeth wrth ofalu am blant a phobl ifanc, ac mewn addysg a sgiliau ar gyfer dysgwyr o bob oedran.

Ewch i: www.ofsted.gov.uk

Gweler hefyd:

- Gwella ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion uwchradd.
- Gwella ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion cynradd.

ETINI(The Education and Training Inspectorate):
Ewch i: www.etini.gov.uk

Yr Adran Addysg:
Ewch i: www.education.gov.uk

- Gweler hefyd: Improving behaviour and attendance: Guidance on exclusion from schools and Pupil Referral Units, 2008.

  www.education.gov.uk/publications/standard/publicationdetail/page1/DCSF-00573-2008

- Pupil Participation Guidance: Working Together – Giving Children and Young People a Say, 2004.

  Ewch i: www.education.gov.uk/publications/standard/Pupilsupportwelfareandbehaviour/Page6/DfES%200134%202004

Llywodraeth Yr Alban
Ewch i: www.scotland.gov.uk

- Better Behaviour – Better Learning Report of the Discipline Task Group; Adroddiad diweddar y Gweithgor ar Ddisgyblaeth sy'n cynnwys 36 o argymhellion y mae eu nod yw gwella disgyblaeth mewn ysgolion, Mehefin 2011, ar gael ar-lein yn: **www.scotland.gov.uk/Publications/2001/06/9337/File-1**

Llywodraeth Cymru
Ewch i: www.cymru.gov.uk

- Ymagweddau ymarferol at Reoli Ymddygiad yn y Dosbarth: Llawlyfr i athrawon dosbarth mewn ysgolion uwchradd.

www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100824practicalcy.pdf

Adran Addysg Gogledd Iwerddon
Ewch i: www.deni.gov.uk

- Disgyblaeth mewn ysgolion a hyrwyddo ymddygiad da

www.deni.gov.uk/index/21-pupils-parents-pg/21-pupils_parents_school_discipline_promoting_positive_behaviour-pg.htm

Ffyrdd o gynnwys pobl ifanc:

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

- Participation Works
  Ewch i: www.participationworks.org.uk
- Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid - Hear by Right
  Ewch i: www.nya.org.uk
- Rhwydwaith Cyfranogiad Pobl Ifanc – cefnogi'r sector cyhoeddus i gynnwys plant a phobl ifanc
  Ewch i: www.participationnetwork.org

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y gwerthusiad cenedlaethol o'r Gronfa Pobl Ifanc, cysylltwch â'r

Gronfa Loteri Fawr: 0845 410 2030

Mae adroddiadau gwerthuso'r Gronfa Pobl Ifanc a dogfennau cefnogol ar gael gan y Gronfa Loteri Fawr yn:

www.cronfaloterifawr.org.uk/eval_ypf

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®